# COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU

## CYFARFOD A GYNHALIWYD AR 26 IONAWR 2016 YN NHŶ HASTINGS.

**Yn bresennol:** Mr. Owen Watkin (Cadeirydd); Mr. Ceri Stradling; Mr. David Powell; Mrs. Julie May a Mr. Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC yn bresennol:** Mr. Steve Halsall (Prif Weithredwr); Mr. Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr. David Carr (Rheolwr Cyllid); Mrs. Rachel Williams (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr. Daniel Mosley (Swyddog Arolygon); Mr. Ralph Handscomb (Swyddog Arolygon); Mrs. Catherine Thomas (Swyddog Arolygon)

**Amser Dechrau:** 9:30
**Amser Gorffen:** 12:40

**Ymddiheuriadau:** Derbyniwyd ymddiheuriadau ar ran Mr. Tom Jenkins a Mr. Ross Evans nad oeddent yn gallu mynychu'r cyfarfod.

### 1. Datganiad o Fuddiant

1.1. Datganodd Mrs. Julie May fuddiant teuluol yn Arolwg Cymunedol Castell-nedd Port Talbot. (Gweler 6.1 isod)

### 2. Cyhoeddiadau'r Cadeirydd

2.1. Dywedodd y Cadeirydd y byddai'n briffio'r cyfarfod wrth i faterion gael eu hystyried ar yr agenda.

### 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2015

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Rhagfyr 2015 fel cofnod cywir o'r materion a ystyriwyd.

### 4. Materion yn Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Ionawr gan y Prif Weithredwr ar Faterion yn Codi.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad yn ei gyfanrwydd gan nodi'r materion i'w trafod nes ymlaen yn y cyfarfod hwn, a **nodwyd** hefyd cynnydd wedi'i ddiweddaru ar y materion canlynol:

- (Mater 1) Arolygon Prif Ardaloedd – Roedd Cyfarwyddiadau Desg wedi'u hadolygu a'u diweddaru, fodd bynnag, nodwyd bod y rhain yn ddogfennau fyw ac y byddai newidiadau'n cael eu gwneud fel bo'r gofyn. **Matt Redmond**
- (Mater 2) Pwerau gwneud Gorchmynion Cymunedol – mae cyfarwyddiadau wedi'u paratoi a'u hanfon i gael cyngor cyfreithiol. **Matt Redmond**
- (Mater 3) Grŵp Cynllunio Etholiadau – mae'r cyfarfod nesaf i'w gynnal ym Mawrth 2016. **Steve Halsall**

- (Mater 4) Cynllunio Arolygon Etholiadol – materion gweithredol i'w hystyried. Chwefror 2016. **Matt Redmond**
- (Mater 5) Teithio a Chynhaliaeth – mae gwahoddiad i roi dyfynbris ar gyfer yswiriant wedi'i roi ar GwerthwchiGymru. Ionawr 2016. **Rachel Williams**
- (Mater 6) Telerau ac Amodau Staff – mae argymhellion yr Is-bwyllgor Gweithlu i'w hadolygu ym Mehefin 2016. **Steve Halsall**
- (Mater 7) Gwasanaethau Cyfreithiol – mae caniatâd i ymestyn y contract gydag Adran Gyfreithiol y Llywodraeth wedi'i roi gan Swyddfa'r Cabinet; roedd y Comisiwn yn disgwyl ymateb gan Adran Gyfreithiol y Llywodraeth. **Rachel Williams**
- (Mater 8) Safonau'r Gymraeg - disgwyl am reoliadau ac yna hysbysiad cydymffurfio drafft gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae sesiwn briffio yn cael ei chynnal gan Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg ar 23 Chwefror 2016. **Steve Halsall**
- (Mater 9) Adeilad – ymchwilio i les newydd gyda'r Landlord. **Rachel Williams**
- (Mater 10) Arolwg Ordnans – Teithio a Llety ar gyfer ymweliad 11 Chwefror i'w trefnu. **Tom Jenkins**
- (Mater 13) Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth – cyhoeddwyd ar y wefan. **Steve Halsall**

## 5. Arolygon Etholiadol Heb eu Cynnal: Datganiad y Gweinidog

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 6 Ionawr 2016 gan y Prif Weithredwr. Rhoddodd yr Adroddiad rywfaint o gefndir i gyhoeddiad y Gweinidog nad oedd unrhyw Orchmynion i'w gweithredu ar gyfer yr arolygon a gwblhawyd o:

**Sir Gaerfyrddin,**
**Ceredigion**
**Conwy**
**Sir Ddinbych,**
**Gwynedd,**
**Sir Fynwy**
**Sir Benfro,**
**Powys, a**
**Thorfaen**

5.2. Roedd nifer o newidiadau ôl-ddilynol wedi'u gwneud fel rhan o'r arolygon gwreiddiol yn yr achosion hyn, ond mae rhai eraill i fynd i'r afael â nhw o hyd o ganlyniad i'r penderfyniad hwn - mae anomaledd rhwng wardiau cymunedol a wardiau etholiadol yn Nhref Aberhonddu yn enghraifft. Awgrymwyd y gallai Cyngor Sir Powys mynd at Lywodraeth Cymru i dynnu sylw at yr anomaledd hwn ddarparu ateb.

5.3. Adroddwyd bod cais Rhyddid Gwybodaeth wedi'i wneud ynglŷn â chost yr arolygon hyn, ond nid oedd yn bosibl gwahanu costau amser staff ar gyfer arolwg unigol, ac roedd y cyllidebau cyfan a gyhoeddwyd yn Adroddiadau Blynyddol y Comisiwn yn cynnwys y ffigurau cymwys ar gyfer y blynyddoedd dan sylw.

5.4. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn, a **Nodwyd** ymhellach bod y Comisiwn wedi cwblhau ei waith ar yr arolygon hyn yn unol â'r Llythyr Cylch Gwaith mewn grym ar y pryd. Roedd yr arolygon yn rhai o ansawdd uchel ac fe'u cynhaliwyd gyda diwydrwydd dyladwy, eglurder, sylw manwl i gyfathrebiadau, a chan gynnal perthynas dda gyda rhanddeiliaid.

## 6. Arolwg Cymunedol Castell-nedd Port Talbot

6.1. Gadawodd Mrs Julie May yr ystafell yn ystod y drafodaeth ynglŷn â’r eitem hon. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 26 Ionawr 2016 gan y Swyddog Arolygon ac fe’i amlinellwyd gan y Dirprwy Brif Weithredwr yn ei absenoldeb.

6.2. Nodwyd, gan y bu rhywfaint o ddryswch ynglŷn â nifer yr eiddo sydd dan sylw yn yr ymgynghoriad, fod y terfyn amser ar gyfer gwneud cynrychiolaethau wedi’i ymestyn yn sgil yr egluro, ac mae pecynnau ymgynghori ychwanegol wedi’i darparu i’r etholwyr yr effeithir arnynt. Cafodd y chwe chynrychiolaeth a dderbyniwyd o ardal Brombil eu hystyried, a **Chytunwyd** mai OPSIWN A yw’r dewis a ffefrir.

6.3. Cafodd yr Adroddiad drafft gan ddefnyddio Opsiwn A ei ystyried a **Chytunwyd** i’w baratoi ar gyfer ei gyhoeddi, gyda manylion y cynrychiolaethau ond yn cael eu dangos yn yr Atodiad. **Gweithredu: Swyddog Arolygon.**

## 7. Ffioedd a Threuliau Comisiynwyr

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 15 Ionawr 2016 gan y Rheolwr Cyllid. Cyflwynwyd polisi wedi’i ddiwygio a ddrafftiwyd gyda’r bwriad o sefydlu cysondeb hawliadau ar draws yr aelodau, ynghyd â diweddariad i gyfraddau a newidiadau eraill. **Cytunwyd** y byddai’r polisi’n cael ei ddiwygio fel y cynigiwyd a’i adolygu yn 2019, ac yna bob tair blynedd. **Gweithredu: Rheolwr Cyllid.**

7.2. **Nodwyd** y Polisi gan y Comisiwn.

## 8. Comisiwn Staff i’r Gwasanaethau Cyhoeddus

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 18 Ionawr 2016 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

8.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn a **Chytunodd** fod Cadeirydd a Phrif Weithredwr y Comisiwn Staff i’r Gwasanaethau Cyhoeddus i’w gwahodd i fynychu un o gyfarfodydd rheolaidd y Comisiwn. **Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes.**

## 9. Rheoli Risg – Y gofrestr risgiau

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 15 Ionawr 2016 gan y Rheolwr Cyllid.

9.2. **Nodwyd** na fu unrhyw newidiadau diweddar i’r Gofrestr Risgiau, ond y dylid adolygu risg CR7 yng ngolau Bil Cymru, y Llythyr Cylch Gwaith, a newidiadau eraill y gallent gael eu cyflwyno ar ôl etholiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru sydd i ddod.

9.3. **Cytunwyd** y byddai risg CR7 yn cael ei hail-lunio gan uwch reolwyr i adlewyrchu'r sefyllfa bresennol ynglŷn â'r ansicrwydd ynghylch rhaglen waith y Comisiwn yn y dyfodol, a byddai'r newidiadau arfaethedig y cael eu hadolygu gan Aelodau yn eu cyfarfod nesaf. **Cytunwyd** bod y raddfa risg weddilliol ar gyfer CR7 i'w gosod yn ôl i 25.
**Gweithredu: Prif Weithredwr/ Dirprwy Brif Weithredwr/ Rheolwr Cyllid.**

## 10. Polisi Rheoli Risg

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 15 Ionawr 2016 gan y Rheolwr Cyllid; gan dynnu sylw at ddiwygiadau i'r Polisi Rheoli Risg yn dilyn argymhellion a roddwyd gerbron gan y Pwyllgor Archwilio a Sicrwydd Risg.

10.2. **Nodwyd** yr adroddiad ac roedd angen gwneud un newid. Yng Ngham 3; mae'r nodyn i ddarllen "*Mae cyfres o risgiau arolwg safonol wedi'i sefydlu".*

10.3. **Cytunwyd,** yn amodol ar y newid bach a amlinellwyd uchod, y byddai'r polisi'n cael ei fabwysiadu gan y Comisiwn a bydd yn destun arolwg bob tair blynedd.

## 11. Adroddiad Cyllideb

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 12 Ionawr 2016 gan y Rheolwr Cyllid ynglŷn â chyllideb y Comisiwn. **Nododd** y Comisiwn y mân ddiwygiadau i gategorïau'r gyllideb a'r tanwariant diwygiedig ar ôl ildio cyllid i Lywodraeth Cymru am y flwyddyn. Nodwyd eto fod rhywfaint o ansicrwydd ynghylch costau cyfreithiol yn y dyfodol am gyngor a geir ar ffiniau tua'r môr, ac unrhyw gyngor fydd ei angen ar gyfer drafftio gorchmynion arolygon cymunedol.

11.2. **Nodwyd** yr adroddiad.

## 12. Bil Llywodraeth Leol Cymru

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 14 Ionawr 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr. Roedd y Papur yn amlinellu dadansoddiad y Comisiwn o'r cymalau perthnasol ym Mil Llywodraeth Leol (Cymru) sy'n effeithio ar y Comisiwn, yn ymwneud yn bennaf ag arolygon o gynghorau cymuned. Yn ogystal, rhoddwyd ystyriaeth i lythyr drafft i'r Gweinidog yn amlinellu barn y Comisiwn ynglŷn â'r Bil.

12.2. Dywedodd y Prif Weithredwr wrth y Comisiwn, yn dilyn cyfarfod gyda swyddogion Llywodraeth Cymru, y tynnwyd ei sylw at y ffaith fod Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol y Cynulliad Cenedlaethol yn craffu'r Bil ar hyn o bryd, ac y byddent y croesawu unrhyw sylwadau yr hoffai'r Comisiwn eu gwneud.

12.3. **Nodwyd** y llythyr drafft, ac yn amodol ar ychydig o fân newidiadau gramadegol, **Cytunwyd** ar y llythyr a byddai'n cael ei anfon fel sylwadau'r

Comisiwn at y Gweinidog, a’r Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol. **Gweithredu: Y Dirprwy Brif Weithredwr.**

## 13. Adroddiad Cynnydd Arolygon

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 18 Ionawr 2016 gan y Dirprwy Brif Weithredwr ar Gynnydd yr Arolygon cyfredol.

13.2. Adroddwyd bod yr Arolwg Cymunedol o Gaerdydd yn cael ei argraffu ar hyn o bryd ac y byddai’n cael ei gyhoeddi maes o law. Roedd Adroddiad Terfynol Arolwg Cymunedol Castell-nedd Port Talbot wedi’i drafod yn gynharach yn y cyfarfod, a byddai’n mynd drwy’r broses sicrhau ansawdd cyn cael ei gyfieithu a’i gyhoeddi. Bydd Arolwg Cymunedol Sir Gaerfyrddin yn cael ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Comisiwn; ac roedd y Comisiwn yn dal i ddisgwyl canlyniadau arolwg cymunedol Sir Ddinbych o Brestatyn.

13.3. **Nodwyd** yr Adroddiad.

## 14. Ymgynghoriad Ffioedd Swyddfa Archwilio Cymru 2016-17

14.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 6 Ionawr 2016 gan y Rheolwr Cyllid, ynglŷn â’r ymateb gan Swyddfa Archwilio Cymru ynghylch yr ymgynghoriad ar y ffioedd.

14.2. **Nodwyd** yr Adroddiad gan y Comisiwn.

## 15. Canllaw Rheoli Cofnodion

15.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 18 Ionawr 2016 gan y Rheolwr Cymorth Busnes ynglŷn â Pholisi a Chanllaw’r Comisiwn ar Reoli Cofnodion.

15.2. **Nodwyd** yr adroddiad gan y Comisiwn ac awgrymodd y diwygiadau canlynol;

- Roedd y Polisi’n cyfeirio at “staff”, ond dylai hefyd gynnwys adran ar Gomisiynwyr a’u cyfrifoldebau.
- I ychwanegu cymal yn mynnu bod contractwyr yn cydymffurfio â pholisi’r Comisiwn ar reoli cofnodion.
- I egluro pwynt 16 yn y ‘Rhaglen a Chanllaw Rheoli Gwybodaeth a Chofnodion’ mewn perthynas â staff a Chomisiynwyr yn gadael y Comisiwn a’u cyfrifoldebau wrth adael cyflogaeth.

15.3. Yn amodol ar y mân ddiwygiadau uchod, **Derbyniwyd** y Polisi a Chanllaw ar Reoli Cofnodion. Byddai’r Rheolwr Cymorth Busnes, o ganlyniad, yn trefnu ffeiliau’r Comisiwn yn unol â’r Canllaw Cadw Ffeiliau fel rhan o’r polisi hwn. Mae’r Polisi i’w adolygu yn 2019 a bob tair blynedd ar ôl hynny. **Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes**.

## 16. Datganiad ar Bolisi Tâl 2015-16

16.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 18 Ionawr 2016 gan y Rheolwr Cymorth Busnes a amlinellodd Ddatganiad Polisi Tâl y Comisiwn, mewn ymateb i lythyr y Gweinidog ym mis Rhagfyr 2015.

16.2. **Nodwyd** yr Adroddiad gan y Comisiwn a **Derbyniodd** yr adroddiad ar gyfer ei gyhoeddi.
**Gweithredu: Rheolwr Cymorth Busnes.**

## 17. Calendr Digwyddiadau

17.1. **Nodwyd** y calendr**.**

## 18. Unrhyw Fusnes Arall

18.1. Nid oes unrhyw fusnes perthnasol arall.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: Dydd Mawrth 23 Chwefror 2016**